


DILYN ÔL TROED

Arwyr ac Arwresau Cymru **Llywelyn Fawr**



 **Cadw**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Roedd Cymru'r Canol Oesoedd wedi'i rhannu'n deyrnasoedd annibynnol a oedd yn cael eu rheoli gan dywysogion. Roedd pob un ohonynt yn ymgiprys am bŵer dros y lleill, gan amddiffyn eu hunain ar yr un pryd rhag yr arglwyddi Eingl-Normanaid a brenin Lloegr. Mae ein stori ni'n canolbwyntio ar Wunedd yng ngogledd-orllewin Cymru, y deyrnas fwyaf anghysbell a mynyddig yng Nghymru.

Llywelyn Fawr

Tywysog pwerus a unodd Cymru



'Llywelyn Fawr', un o dywysogion mwyaf pwerus Cymru

Llywelyn ap Iorwerth, a oedd yn cael ei adnabod hefyd fel 'Llywelyn Fawr', oedd un o Dywysogion enwocaf a mwyaf pwerus Gwynedd. Roedd yn rhyfelwr dewr a hefyd yn wleidydd doeth. Pan fu farw, roedd Llywelyn wedi llwyddo i uno'r rhan fwyaf o'i Gymru frodorol o dan ei arweiniad.

Yn ystod ei deyrnasiad, adeiladodd Llywelyn gadwyn o gestyll mawreddog er mwyn amddiffyn ffiniau Gwynedd a pherfeddwlad Eryri. Mae llawer o'r adfeilion i'w gweld hyd heddiw. Roedd yn noddwr hael ar eglwysi a beirdd hefyd.



Brenin John o Loegr

Hau hadau heddwch â Lloegr

Daeth Llywelyn yn llywodraethwr Gwynedd tua'r flwyddyn 1200 ac un o'i gamau cyntaf oedd llunio cytundeb gyda'r Brenin John o Loegr. Hwn oedd y cytundeb ysgrifenedig cyntaf rhwng brenin o Loegr a llywodraethwr yng Nghymru. Tyngodd Llywelyn lw o ffyddlondeb i'r brenin ac, am hynny, roedd yn cael cadw'r tiroedd yr oedd wedi'u hennill yng Nghymru.

Cryfhawyd y berthynas â Lloegr yn y flwyddyn 1205 pan briododd Llywelyn â Joan, merch y Brenin John.

Brwydro unwaith eto

Bu heddwch rhwng y ddwy wlad am tua deng mlynedd. Ond yna dechreuodd John boeni am bŵer cynyddol Llywelyn. Penderfynodd ymosod ar Gymru a dwyn tiroedd Llywelyn oddi arno. Ysgubodd byddin enfawr John ar draws Wynedd yn y flwyddyn 1211 a gorfodwyd Llywelyn i ildio. Anfonwyd Joan i drafod telerau â'r Brenin John, ei thad. Cafodd Llywelyn ei arbed ond bu'n rhaid iddo ildio llawer o'i diroedd.

Y flwyddyn ganlynol, ffurfiodd Llywelyn gynghrair gyda thywysogion eraill Cymru, gan adfer y tiroedd yr oedd wedi'u colli i Loegr. Erbyn y flwyddyn 1216, Llywelyn oedd y llywodraethwr mwyaf pwerus yng Nghymru.

Ar ôl marwolaeth y Brenin John, dal ati i frwydro yn erbyn ei olynnydd, Henri'r III, fu hanes Llywelyn. Lluniwyd cytundeb heddwch rhyngddynt yn y flwyddyn 1234 a bu'r cytundeb hwnnw mewn grym nes bu farw Llywelyn.

Brad a maddeuant

Roedd gan Llywelyn a Joan un mab, Dafydd ap Llywelyn, ac o leiaf pedair merch. Ond bu'n argyfwng ar eu priodas



Perfeddwlad Eryri ble'r oedd y tywysog yn llywodraethu



Adeiladodd Llywelyn gadwyn o gestyll mawreddog, gan gynnwys Castell y Bere



Castell Dolbadarn

yn y flwyddyn 1230, pan gyhuddwyd Joan o gael perthynas y tu allan i'w phriodas gydag arglwydd pwerus o Loegr, William de Braose. Cafodd Joan ei charcharu am 12 mis gan Llywelyn a gorchmynnodd bod William de Braose yn cael ei grogi. Ond cafodd Joan faddeuant gan Llywelyn yn ddiweddarach ac fe'i cymerodd yn ôl fel ei wraig.

Y gwahanu terfynol ond mae'r stori'n fyw o hyd

Pan fu farw Joan yn y flwyddyn 1237, roedd Llywelyn yn hynod alarus. Roedd hi wedi bod yn graig iddo. Trefnodd Llywelyn iddi gael ei chladdu mewn lle o'r enw Llanfaes ar Ynys Môn, lle cyn y gallai ei weld ar draws y dŵr o'i lys yn Abergwyngregyn. Sefydlodd fynachlog yno er cof amdani. Treuliodd Llywelyn ei ddyddiau olaf yn Abaty Aberconwy, ble bu farw yn y flwyddyn 1240. Erbyn hyn, roedd yn dywysog Cymru mewn popeth ond enw.

Mae stori Llywelyn a Joan yn fyw o hyd yn nrama Siwan (sef yr enw Cymraeg am Joan) a ysgrifennwyd gan Saunders Lewis ac sy'n dal i gael ei pherfformio mewn theatrau ar hyd a lled y wlad.

Wyneb tywysog


Yn 1966, daethpwyd o hyd i ben wedi'i gerfio o garreg ac yn dyddio i'r 13eg ganrif yng nghanol adfeilion Castell Deganwy, ger Conwy. Y gred ydi mai wyneb Llywelyn Fawr yw hwn. Mae copi o'r pen carreg i'w weld yn y ganolfan ymwelwyr yng Nghastell Cricieth. Mae'r gwreiddiol yn cael ei gadw yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru.



Caead arch Joan yn Eglwys Biwmares

Dilyn ôl troed

Rydych chi wedi darllen stori Llywelyn Fawr, nawr beth am ymweld â rhai o'r cestyll gwych a adeiladwyd ganddo?



Castell Dolwyddelan

Castell Dolwyddelan

Yn ôl y sôn cafodd Llywelyn ap Iorwerth ei eni yn agos i'r fan yma. Yn ddiweddarach, adeiladodd y castell er mwyn amddiffyn prif lwybr i Eryri. Mae'r castell yn adfail bellach ond mae golygfeydd godidog i'w gweld ohono draw tua'r mynyddoedd gerllaw.

- Archwiliwch yr adfeilion – ydych chi'n gallu gweld ble'r oedd yr ystafelloedd eraill?
- Dringwch i frig y tŵr ac edrychwch allan. Dychmygwch eich bod yn amddiffyn bwlich y mynydd rhag ymosodiad.



Pen wedi'i gerfio o garreg, a'r gred yw mai wyneb Llywelyn Fawr yw hwn

Castell Dolbadarn

Mae'n bur debyg bod y castell yma gyda'i dŵr crwn anferth wedi cael ei adeiladu gan Llywelyn ar ddechrau'r 13eg ganrif. Roedd mewn lleoliad perffaith i amddiffyn Bwlich Llanberis, llwybr pwysig drwy Eryri.

- Dringwch y grisiau i mewn i'r tŵr. Sylwch ar yr holltau yn y waliau – ble gallai'r saethwyr saethu at y gelyn heb gael eu saethu eu hunain.
- Ydych chi'n gallu dod o hyd i ddwy lithrfa ar waelod y tŵr? I'r rhain yr oedd gwastraff toiledau'r castell yn mynd!

Castell Cricieth

Mae'r castell hwn ar bentir uwch ben y môr a'i donau geirwon a chredir iddo gael ei adeiladu gan Llywelyn yn y flwyddyn 1230. Mae'r porthdy enfawr yn rhan gwbl amlwg o'r tirlun ac rwy'n siŵr ei fod yn olygfa fygythiol i unrhyw ymosodwyr. Bu llawer o dywysogion o Gymru a brenhinoedd o Loegr yn brwydro i fod yn berchen ar y castell, a newidiodd ddwylo sawl gwaith.

- Chwiliwch am yr holltau a'r murfylchau i saethau oedd yn amddiffyn y castell. Fyddech chi'n teimlo'n ddiogel y tu mewn?
- Chwiliwch am y tyllau llofruddio uwch ben llwybr y giât – er mwyn i filwyr allu taflu creigiau neu ludw poeth ar yr ymosodwyr.




Castell Cricieth

Castell y Bere

Arferai'r adfeilion hyn fod yn rhan o gaer gyfoethog a adeiladwyd gan Llywelyn er mwyn amddiffyn y dyffryn. Heddiw mae'n llecyn delfrydol i fwynhau'r golygfeydd trawiadol o'r mynydd, Cadair Idris.

- Edrychwch ar yr adfeilion i weld a oes posib rhoi'r darnau at ei gilydd i greu darlun o sut roedd y castell yn edrych ar un adeg.
- Edrychwch i fyny am Gadair Idris. Yn ôl y sôn cafodd y mynydd ei enw ar ôl cawr a ddefnyddiai'r mynydd fel cadair freichiau enfawr tra oedd yn eistedd ac yn sylu ar y sêr.



Castell y Bere

EWCH I www.cadw.cymru.gov.uk I DDARGANFOD MWY AM Y SAFLEOEDD